BIS | Department for Business Innovation & Skills

GWELL BARGEN I DDEFNYDDWYR

Adolygiad o Reoleiddio Cardiau Credyd a Chardiau Siopau: Ymgynghoriad

HYDREF 2009

Gwell Bargen i Ddefnyddwyr

Adolygiad o Reoleiddio Cardiau Credyd a Chardiau Siopau: Ymgynghoriad HYDREF 2009

Adeiladu Dyfodol Prydain

EGLURHAD O'R CYD-DESTUN EHANGACH DROS GYNNAL YR YMGYNGHORIAD A'R HYN Y CEISIR EI GYFLAWNI

Fis Gorffennaf 2009, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn "*A Better Deal for Consumers: Delivering Real Help Now and Change for the Future*". Un o'r ymrwymiadau a wnaed yn y Papur Gwyn oedd y byddwn yn adolygu'r rheoliadau sy'n ymwneud â chardiau credyd a chardiau siopau. Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf o fwrw ymlaen â'r ymrwymiad hwnnw.

Dymunwn gael gwell bargen i'r defnyddwyr drwy roi mwy o reolaeth iddynt dros fenthyca ar eu cardiau credyd a'u cardiau siopau ac ar yr un pryd sicrhau bod unrhyw ymyriad yn gymesur, yn dryloyw ac wedi'i dargedu. Mae'n debygol yn ein barn ni y bydd angen gwneud newidiadau i'r drefn reoleiddio cyn y gellir llwyddo i wireddu hyn.

Rydym wedi pennu pedair agwedd benodol o'r modd y caiff cardiau credyd a chardiau siopau eu rhedeg y dylid ystyried eu newid: isafswm taliadau, codi'r terfyn credyd heb ofyn, ail-brisio dyled bresennol, a dyrannu taliadau. Hefyd rydym wedi gweld cyfle i wneud cardiau credyd a chardiau siopau yn fwy syml ac yn fwy tryloyw yn gyffredinol.

Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol ar un o'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Mae eich barn ar yr opsiynau polisi yr ydym wedi'u nodi o ddiddordeb arbennig i ni.

Cyhoeddwyd: 27 Hydref 2009

Rhaid ymateb erbyn: 19 Ionawr 2010

Ymholiadau i: Christina Anderson, Bay 436, BIS, 1 Victoria Street, Llundain, SW1H OET, rhif ffôn 0207 215 1923
e-bost: cscr@bis.gsi.gov.uk

Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i: bob defnyddiwr a microfentrau (unig fasnachwyr a phartneriaethau) sy'n berchen ar gerdyn credyd neu gerdyn siopau ac i bob cwmni cerdyn credyd a cherdyn siopau sy'n gweithredu yn y DU. Hefyd mae hyn o ddiddordeb cyffredinol i bob defnyddiwr a busnes yn y DU.

Cynnwys

Rhagair
Crynodeb Gweithredol

Pennod 1: Cyflwyniad
Pennod 2: Dyrannu taliadau
Pennod 3: Isafswm taliadau
Pennod 4: Codi'r terfyn heb ofyn
Pennod 5: Ail-brisio dyled bresennol
Pennod 6: Bod yn syml ac yn dryloyw
Pennod 7: Beth sy'n digwydd nesaf?
Atodiad A: Rhestr o'r Cwestiynau Ymgynghori
Atodiad B: Rhestr termau
Atodiad C: Rhestr o'r Sefydliadau yr Ymgynghorir â hwy
Atodiad D: Cod Ymarfer ar Ymgynghori

Rhagair

Bu cynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o gardiau credyd yn ystod y degawdau diwethaf hyn. Erbyn hyn dyma'r ffordd fwyaf poblogaidd o fenthyca arian yng ngwledydd Prydain. Mewn gwirionedd, mae mwy o gardiau credyd na phobl[1] yn y DU erbyn hyn.

Mae nifer o ddefnyddwyr, fodd bynnag, o'r farn nad ydynt yn cael bargen deg gan eu cwmnïau cardiau credyd a chardiau siopau. Ymddengys nad yw rhai elfennau o'r modd y mae cardiau yn gweithio o fudd i ddefnyddwyr. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o reolaeth sydd gan y defnyddwyr dros y modd y caiff eu dyledion eu had-dalu, dros godi terfyn eu credyd na dros y newidiadau i'r cyfraddau llog a godir arnynt. Gall y telerau a'r amodau fod yn ddyrys ac yn ddryslyd, gan olygu bod defnyddwyr yn wynebu costau annisgwyl. Mae anfodlonrwydd dirfawr y defnyddwyr ynglŷn â chardiau credyd a chardiau siopau yn amlygu'r diffyg hwn yn y dewis a roddir i'r defnyddiwr.

Mae nifer ohonom yn defnyddio'n cardiau credyd yn gyfrifol fel modd cyfleus o dalu ac fel modd o reoli'n anghenion benthyca dros gyfnod byr. Serch hynny mae nifer cynyddol o ddefnyddwyr yn defnyddio cardiau credyd a chardiau siopau fel ffurf ar fenthyca tymor hirach sy'n golygu bod y ddyled yn chwyddo allan o reolaeth, ac mae hyn yn fater sy'n peri pryder i'r Llywodraeth. Credwn y gellir gwneud llawer mwy i ddiogelu defnyddwyr rhag y pwysau ariannol a'r pryder a achosir gan y baich o gael dyledion trwm heb fawr o obaith o'u had-dalu dros gyfnod rhesymol o amser.

Mae cael system gadarn ac ymatebol o reoleiddio yn allweddol i sicrhau marchnadoedd ariannol cynaliadwy a bargen deg i'r defnyddwyr. Ar 8 Gorffennaf, cyhoeddodd Trysorlys EM ddogfen 'Diwygio'r Marchnadoedd Ariannol" oedd yn nodi strategaeth y Llywodraeth ar gyfer diwygio'r system ariannol.[2] Yn y ddogfen hon cyhoeddwyd mesurau i ddiwygio a chryfhau'r rheoliadau ariannol, ac i atgyfnerthu'r fframwaith mewn sefydliadau ar gyfer diogelu sefydlogrwydd ariannol. Hefyd roedd y papur yn nodi'r mesurau i leihau'r effaith pan fydd cwmnïau ariannol yn methu, ac i wella cystadleuaeth yn y marchnadoedd ariannol. Hefyd, yn bwysig iawn, roedd y ddogfen yn cyhoeddi mesurau i ddiogelu, i hysbysu ac i rymuso defnyddwyr cynnyrch y gwasanaethau ariannol drwy gynyddu gallu ariannol, gwneud cynnyrch syml a thryloyw yn fwy hygyrch i'r defnyddwyr, a rhoi'r hawl ar y cyd i ddefnyddwyr gael iawn mewn achosion lle mae cwynion ledled y wlad am weithgareddau cwmnïau.

[1] Data gan Gymdeithas Bancwyr Prydain: Fis Gorffennaf 2009 roedd 63 miliwn o gardiau wedi'u defnyddio yn y DU o'i gymharu â phoblogaeth o rhyw 61 miliwn.
[2] http://www.hm-treasury.gov.uk/reforming_financial_markets.htm

Law yn llaw â'r papur hwn, mae'r Papur Gwyn: "*A Better Deal for Consumers: Delivering Real Help Now and Change for the Future*" yn nodi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer ymagwedd newydd tuag at gredyd defnyddwyr, ymagwedd sy'n gweithio nid yn unig yn yr amseroedd anodd hyn, ond sydd hefyd yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i'r dyfodol.[3]

Mae'r adolygiad hwn o'r farchnad cardiau credyd a chardiau siopau yn digwydd yng nghyd-destun nifer o fentrau pwysig gan y Llywodraeth a amlinellir yn y Papur Gwyn, gan gynnwys gweithredu'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ddiwygiedig ar Gredyd Defnyddwyr[4] y flwyddyn nesaf, a gwaith y Swyddfa Masnachu Teg i ddatblygu Canllawiau ar Arferion Benthyca Anghyfrifol.[5] Bydd y mentrau hyn yn cyflwyno mesurau newydd pwysig i ddiogelu defnyddwyr. Bydd yr adolygiad hwn yn adeiladu ar y mentrau hyn drwy edrych ar y sialensiau penodol a wynebwn o ran cardiau credyd a chardiau siopau.

Wrth i ni gael golwg ar sut mae angen newid y rheolau ar gardiau credyd a chardiau siopau, byddwn yn sicrhau bod darlun clir a chyson o reoleiddio i'r defnyddwyr ac i'r cwmnïau fel ei gilydd. Rhaid i ni, wrth reswm, asesu'r risg bod rhai camau o ymyrryd, yn anfwriadol, yn gallu achosi cynnydd yn y gost o gael credyd a'i gwneud yn fwy anodd i ddefnyddwyr gael credyd. Ond ni fyddwn yn meddwl ddwywaith cyn cymryd camau lle bo tystiolaeth o gam-fanteisio ar ddefnyddwyr neu bod defnyddwyr dan anfantais.

Gan fod benthyca ar gardiau credyd a chardiau siopau yn y DU yn digwydd bellach ar raddfa mor eang, gallai'r adolygiad hwn arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol o ran lefelau credyd defnyddwyr yn yr economi. Os bydd llai o roi benthyg arian a benthyca personol yn sgîl y newidiadau a gynigir gennym, dymunir i'r lleihad hwnnw, a'r modd y mae'r farchnad yn esblygu, ddigwydd oherwydd bod defnyddwyr yn gwneud gwell penderfyniadau ynglŷn â'u sefyllfa ariannol. Bydd hyn yn hanfodol bwysig i ail-adeiladu hyder y defnyddiwr yn y cynnyrch ariannol pwysig hwn.

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Mandelson Kevin Brennan AS

[3] http://www.berr.gov.uk/whatwedo/consumers/consumer-white-paper/index.html
[4] Cyfarwyddeb 2008/48/EC. Mae'r testun llawn ar gael ar: http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2008:133:0066:0092:EN:PDF
[5] http://www.oft.gov.uk/advice_and_resources/resource_base/legal/cca/irresponsible

Crynodeb Gweithredol

Dymunwn gael gwell bargen i'r defnyddwyr drwy roi mwy o reolaeth iddynt dros fenthyca ar eu cardiau credyd a'u cardiau siopau ac ar yr un pryd sicrhau bod unrhyw ymyriad yn gymesur, yn dryloyw ac wedi'i dargedu.

1. Mae'n amlwg nad yw rhai o elfennau allweddol cardiau credyd a chardiau siopau er budd defnyddwyr, ac y gallant achosi i ddefnyddwyr sydd eisoes mewn dyled orfod talu rhagor o gostau. Ni allwn adael i hyn barhau. Mae hyn yn peri pryder i ni yn arbennig ar hyn o bryd gan fod nifer fawr o ddefnyddwyr yn wynebu pwysau ariannol yn sgîl y dirwasgiad ac yn gorfod delio â dyledion sydd wedi cynyddu ar eu cardiau credyd dros y blynyddoedd o gredyd hawdd, heb fawr obaith o'u had-dalu.

2. Mae defnyddwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a gynigir gan gardiau credyd a chardiau siopau, ac mae'r defnydd ohonynt wedi cynyddu'n aruthrol dros yr ugain mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o ddefnyddwyr â dyledion anferthol ar eu cardiau heb obaith o'u had-dalu dros gyfnod rhesymol o amser, os o gwbl. Mae'r benthyca ar gardiau siopau gryn dipyn yn llai na'r ddyled ar gardiau credyd, ond mae cardiau siopau yn fater sy'n peri pryder gan eu bod yn codi llog mor uchel.

3. Dros y misoedd diwethaf hyn, rydym wedi bod yn gwerthuso'r farchnad cardiau credyd a chardiau siopau i weld sut y dylid newid y mesurau o reoleiddio'r cardiau hyn. Hefyd, drwy gynnal cyfres o weithdai, rydym wedi ymgynghori â nifer o randdeiliaid oedd yn cynrychioli barn y defnyddiwr a barn y diwydiant. Yn sgîl y gwaith hwn, ac fel y nodwyd yn y Papur Gwyn: "*A Better Deal for Consumers: Delivering Real Help Now and Change for the Future*",[6] rydym wedi clustnodi pedair agwedd benodol o gardiau credyd a chardiau siopau lle credwn bod angen adolygu arferion y farchnad ar hyn o bryd. Hefyd rydym wedi gweld cyfle i wneud cardiau credyd a chardiau siopau yn fwy syml ac yn fwy tryloyw yn gyffredinol.

4. Wrth ystyried y pum maes a nodir isod, nod y Llywodraeth ar y cyfan yw sicrhau gwell bargen i'r defnyddwyr drwy roi mwy o reolaeth iddynt dros fenthyca ar eu cardiau credyd a'u cardiau siopau ac ar yr un pryd sicrhau bod unrhyw ymyriad yn gymesur, yn dryloyw ac wedi'i dargedu.

5. Mae'r Llywodraeth am weld gwell bargen i ddefnyddwyr ym mhob un o'r pum maes y cyfeirir atynt yn yr adolygiad. Cydnabyddwn bod angen ystyried effaith y diwygio sy'n ffafrio un grŵp o ddefnyddwyr dros y mathau eraill o ddefnyddwyr, yn enwedig yr effaith posibl ar y rhai mwy bregus o ran eu sefyllfa ariannol petai'r hawl i gael credyd yn cael ei gyfyngu.

[6] http://www.berr.gov.uk/whatwedo/consumer-white-paper/index.html

DYRANNU TALIADAU

6. Pan fydd defnyddiwr yn gwneud taliad yn erbyn eu cerdyn credyd neu gerdyn siopau, yr arfer yn gyffredinol yn y diwydiant yw bod y taliad hwnnw yn cael ei ddefnyddio i ad-dalu'r ddyled rataf yn gyntaf. Fodd bynnag, nid yw nifer fawr o ddefnyddwyr yn deall bod hyn yn arfer sy'n gyffredin, ac nid ydynt yn sylweddoli mai'r ddyled ar y llog uchaf fydd yr olaf i gael ei had-dalu. Golyga hyn bod defnyddwyr yn talu llawer iawn mwy o log dros gyfnod hirach o amser. Mae hyn yn broblem arbennig i ddefnyddwyr sy'n rheolaidd yn codi arian parod ar eu cerdyn; codir llog o 25% neu fwy fel arfer am hyn. Y defnyddwyr hyn yw'r rhai mwyaf tebygol o fod mewn sefyllfa fregus yn ariannol. Drwy'r system hon o ddyrannu taliadau, mae'r mwyafrif o gwmnïau cardiau credyd yn elwa o'r diffyg dealltwriaeth a'r diffyg dewis sydd gan ddefnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus yn ariannol.

7. Dymunwn i hyn newid. Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych i weld a ellir newid y dyraniad taliadau i sicrhau bod y dyledion drutaf yn cael eu had-dalu'n gynt. Mae nifer fach o gwmnïau eisoes yn gwneud hyn. Ffordd arall o fynd i'r afael â hyn fyddai mesur sy'n galluogi defnyddwyr i ad-dalu arian parod ar log uchel yn gyntaf, gan sicrhau nad yw defnyddwyr sydd mewn sefyllfa fregus ac sy'n defnyddio'u cardiau i godi arian parod yn cael eu cosbi ddwywaith.

ISAFSWM TALIADAU

8. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai ond yr isafswm yr oedd rhyw 14% o ddeiliaid cardiau yn ei dalu bob mis ar gyfrifon cardiau credyd, sy'n gyfystyr â rhyw un rhan o dair o'r bobl sy'n gyson yn defnyddio'u cerdyn i fenthyca, yn hytrach nag ad-dalu'r swm llawn bob mis.[7] Pennir yr isafswm misol ar hyn o bryd ar lefel sydd yr un faint â'r llog am y mis hwnnw, sy'n golygu nad oes unrhyw ran o'r cyfalaf a fenthycwyd yn cael ei ad-dalu o gwbl (ac nid yw'r isafswm bob tro yn ddigon i dalu'r ffioedd a'r taliadau a godir). Mae hyn yn golygu y bydd rhai defnyddwyr yn ad-dalu eu dyledion dros ddegawdau ac yn talu llog sylweddol dros oes y ddyled.

9. Byddai gorfodi defnyddwyr i dalu isafswm uwch bob mis yn golygu y byddent yn llai agored i'r baich o ad-dalu benthyciadau ar log uchel am ddegawdau. Serch hynny, mae'n bosibl y gallai hyn olygu bod defnyddwyr mewn mwy o berygl o fethu â thalu'r isafswm ar adegau anodd, ac y gallai olygu nad oes gymaint o hyblygrwydd gan y defnyddwyr i amrywio eu had-daliadau i helpu i reoli pwysau ariannol tymor byr. Mae'r ymgynghoriad hwn felly yn gofyn am farn ar ddulliau eraill megis cyflwyno isafswm a argymhellir sy'n uwch na'r lleiafswm yn ôl y contract. Byddai'r swm uwch hwn yn golygu y bydd y ddyled wedi'i had-dalu dros gyfnod llawer byrrach (dyweder tair blynedd), a gallai'r

[7] Data gan Gymdeithas Cardiau y DU 2009

swm uwch hwn fod yn swm y mae gofyn i'r rhai sy'n dewis talu'r isafswm drwy Ddebyd Uniongyrchol, ei dalu.

CODI'R TERFYN CREDYD HEB OFYN

10. Arfer cyffredin ymhlith cwmnïau cardiau credyd a chardiau siopau yw codi terfynau credyd defnyddwyr heb gael eu caniatâd yn gyntaf. Mae ymchwil yn ddiweddar o uSwitch yn dangos bod 5.7 miliwn o ddefnyddwyr y llynedd wedi gweld eu terfyn credyd wedi'i godi yn y modd hwn.[8] Mae diffyg gwybodaeth a rheolaeth y defnyddiwr dros yr amseru a maint y cynnydd yn y terfyn credyd, ynghyd â gallu ariannol isel, ac mewn rhai achosion anhawster i wrthod y cynnydd, yn tanseilio gallu'r defnyddiwr i reoli ei fenthyca.

11. Wrth ystyried yr opsiynau fan hyn, byddwn yn cymryd buddiannau'r defnyddwyr ar incwm isel i ystyriaeth a'r rhai sy'n cael credyd am y tro cyntaf sy'n aml yn dibynnu ar gael terfyn isel i gychwyn sydd wedyn yn codi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynglŷn ag effaith yr opsiynau o ymyrryd gan gynnwys gwahardd codi terfyn credyd heb ofyn am hynny neu ei bod yn ofynnol i ddefnyddwyr ddewis codi eu terfyn credyd, naill ai yn gyffredinol ar ddechrau'r cytundeb, neu adeg pob cynnydd penodol.

AIL-BRISIO DYLED BRESENNOL

12. Mae'r arfer parhaus ymhlith cwmnïau cardiau credyd a chardiau siopau o godi'r cyfraddau llog ar ddyled sy'n bod eisoes ("ailbrisio") heb egluro'n iawn pam y maent yn gwneud hynny, yn fater sy'n peri pryder i ni. Mae rhai cwmnïau yn hawlio eu bod yn newid y raddfa llog a godir ar ddefnyddiwr oherwydd ei fod yn peri mwy o risg, ond yn amlach na heb nid oes unrhyw newid amlwg yn amgylchiadau'r defnyddiwr, ac nid yw'r rheswm dros godi'r llog yn cael ei egluro'n iawn. Mae'r defnyddwyr hynny sydd wedi defnyddio'u cardiau yn gyfrifol heb golli taliad dros y blynyddoedd, yn naturiol yn ddig ac yn teimlo eu bod yn talu'r pris am y cwmnïau ariannol sydd wedi cymryd gormod o risgiau.

13. Rydym am sicrhau nad yw defnyddwyr sydd heb fawr o ddewis ganddynt yn dioddef codiadau annheg yn eu llog, bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth glir am sut a pham y bydd eu llog yn newid, a bod y newid yn un dwyffordd, hynny yw, y dylai'r llog fynd lawr yn ogystal ag i fyny. Rydym yn edrych ar amrywiol opsiynau felly, gan gynnwys gwahardd pob newid yn y cyfraddau llog ar ddyledion sy'n bod eisoes, neu osod cyfyngiadau ar yr amgylchiadau y gall benthycwyr ailbrisio ar sail risg.

[8] Cyfnod o 12 mis o fis Gorffennaf 2008 hyd fis Gorffennaf 2009. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar wybodaeth am ddeiliaid cardiau credyd cyfredol yn y DU ac ar adroddiad Cymdeithas Cardiau y DU: UK Plastic Cards 2009.

BOD YN SYML AC YN DRYLOYW

14. Mae'r ffaith bod cardiau credyd a chardiau siopau yn ddyrys yn gallu arwain defnyddwyr i wneud dewisiadau gwael gan olygu mwy o ddyledion a chostau; hefyd mae'n cael effaith wael ar y lefel o drosglwyddo yn y farchnad. Mae'r angen am fod yn fwy tryloyw yn gyffredin i bob un o'r pedwar o arferion penodol a archwilir fel rhan o'r adolygiad hwn.

15. Mae'r awgrym o gael datganiad blynyddol electronig sy'n nodi cyfanswm y gost o redeg y cerdyn am y flwyddyn flaenorol ynghyd â gwybodaeth am ffioedd penodol a'r taliadau a godwyd, yn ddeniadol i ni. Gall y defnyddiwr ddefnyddio'r datganiad hwn wedyn nid yn unig i'w alluogi i newid ei ymddygiad ei hun yn ôl profiad, ond hefyd fel sylfaen i ddod o hyd i ffyrdd eraill ar y farchnad o fenthyg arian sy'n rhatach.

SUT MAE YMATEB

16. Mae'r adolygiad hwn yn amlygu'r cwestiynau sydd o ddiddordeb i ni yn y pum maes o gardiau credyd a chardiau siopau a nodwyd uchod, ond mae diddordeb gennym mewn clywed unrhyw farn y dymunwch ei rhannu ynglŷn â'r farchnad cardiau credyd a chardiau siopau yn fwy cyffredinol, yn enwedig yng ngoleuni mentrau eraill y Llywodraeth ar gredyd defnyddwyr.

17. Bydd angen ystyried y cynigion a nodir yn y papur hwn yn unigol ac o ran eu heffaith gyda'i gilydd ar ddefnyddwyr a busnesau cyn i ni ddod i farn derfynol ar unrhyw becyn o fesurau. Rydym wedi nodi'r dystiolaeth sy'n ategu'n cynigion yn yr Asesiadau o'r Effaith ar yr Economi ac ar Gydraddoldeb sy'n dod gyda'r ymgynghoriad hwn.[9] Bydd angen mwy o ymchwil gan y Llywodraeth a gan eraill yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, a bydd yr ymchwil hwn yn llywio'n penderfyniad terfynol ynghyd â'r ymatebion a dderbyniwn i'r ymgynghoriad hwn.

18. Mae cwestiynau wedi'u cynnwys gyda phob un o'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn. Mae'r Asesiad cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn cynnwys cyfres o gwestiynau. Yn Atodiad A mae casgliad llawn o'r holl gwestiynau a ofynnir yn y ddogfen hon ac yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

19. Mae'r adolygiad hwn yn edrych ar bolisi cardiau credyd a chardiau siopau sy'n gymwys yn y DU. Mae materion credyd defnyddwyr yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl a heb eu datganoli yng Nghymru ac yn yr Alban. Mae credyd defnyddwyr yn fater sydd wedi'i ddatganoli (wedi'i drosglwyddo) yng Ngogledd Iwerddon ond mae'r ddeddfwriaeth (Deddfau Credyd Defnyddwyr 1974 a 2006 a'r rheoliadau sy'n gysylltiedig â hwy) yn gymwys i bob gwlad yn y DU. Mae'r Gweinidog

[9] www.bis.gov.uk/creditconsultation

Menter dros Ogledd Iwerddon wedi gofyn am i Ogledd Iwerddon gael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau bod pobl Gogledd Iwerddon yn elwa o'r diwygiadau arfaethedig. Byddai Gogledd Iwerddon ond yn cael ei chynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol a wneir yn San Steffan gyda chaniatâd yr awdurdodau priodol yng Ngogledd Iwerddon.

20. Mae'r diffiniad o gytundeb credyd defnyddwyr yn Neddf Credyd Defnyddwyr 1974 yn cynnwys busnesau sy'n benthyca hyd at £25,000 i unig fasnachwyr a phartneriaethau (h.y. nid cwmnïau). Mae'r Ddeddf yn eithrio'r cyfryw fenthyca sy'n uwch na £25,000 sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion busnes. Mae'r adolygiad hwn felly yn ymdrin â rheoleiddio cardiau credyd a chardiau siopau i'r cyfryw ficrofentrau. Er hwylustod rydym wedi cyfeirio at "ddefnyddwyr" gydol yr adroddiad. Serch hynny, byddwn yn croesawu ymatebion oddi wrth fusnesau bach a'u cynrychiolwyr, yn enwedig o ran tynnu sylw at feysydd lle gall fod gwahaniaethau rhwng buddiannau defnyddwyr a chwmnïau bach.

21. Dechreuodd yr ymgynghori hwn ar yr adolygiad o'r farchnad cardiau credyd a chardiau siopau ar y 27ain o Hydref 2009. Gofynnir am ymatebion erbyn y 19eg o Ionawr 2010.

22. Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghori at: Christina Anderson, Bay 436, BIS, 1 Victoria Street, Llundain, SW1H OET, rhif ffôn: 0207 215 1923, e-bost: cscr@bis.gsi.gov.uk

23. Wrth ymateb, a fyddech gystal â nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os yn ymateb ar ran sefydliad, a fyddech gystal â nodi'n glir pwy y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, a lle bo'n gymwys, sut aethpwyd ati i gasglu barn yr aelodau.

24. Mae rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion hynny yr ymgynghorwyd â hwy wedi'i nodi yn Atodiad C. Byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan eraill sy'n dymuno cymryd rhan yn y broses hon o ymgynghori.

25. Os oes unrhyw gwestiwn gennych ynglŷn â pholisi'r ymgynghori, dylid cyfeirio'r cwestiynau hyn yn y lle cyntaf at Christina Anderson.

26. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y modd y caiff yr ymgynghoriad hwn ei reoli neu ei gynnal, cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Atodiad D sy'n nodi'r Cod Ymarfer ar gyfer cynnal Ymgynghoriad ac sy'n rhoi manylion cysylltu ar gyfer gwneud cwynion.

CYFRINACHEDD A DIOGELU DATA

27. Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei rhyddhau yn unol â'r drefn mynediad at wybodaeth (sef Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os dymunwch i

wybodaeth, gan gynnwys data personol, a roddir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, a fyddech gystal â chadw mewn cof bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gydymffurfio â Chod Ymarfer statudol sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymhlith pethau eraill.

28. Byddai o gymorth i ni felly petaech yn egluro pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn wybodaeth gyfrinachol. Os derbyniwn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiadau. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd a gynhyrchir yn awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn rwymedig ar yr Adran.

COPÏAU YCHWANEGOL

29. Mae'r ymgynghoriad hwn ar yr adolygiad o'r cardiau credyd a chardiau siopau ar gael yn electronig ar www.bis.gov.uk/creditconsultation ynghyd â'r Asesiadau o'r Effaith ar yr Economi ac ar Gydraddoldeb. Hefyd mae fersiwn Cymraeg o'r crynodeb gweithredol ar gael ar www.bis.gov.uk/creditconsultation. Hefyd mae fersiwn hawdd ei ddarllen o'r ymgynghoriad ar gael ar www.bis.gov.uk/creditconsultation.

Bydd fersiynau eraill o'r ddogfen hon ar gael, lle bo'n bosibl, mewn Braille, ieithoedd eraill, print bras a fformatau eraill, dim ond gofyn.

Department for Business, Innovation & Skills. www.bis.gov.uk
First Published December 2009. Crown Copyright. URN 09/1392W